05.01.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Tro'r newyddiadurwraig Bethan Rhys Roberts i gael ei holi

Mae'r newyddiadurwraig adnabyddus ac uchel ei pharch Bethan Rhys Roberts wedi hen arfer holi a herio pobl o bob math yn ystod ei gyrfa hir a llwyddiannus yn y byd newyddion.

Mae bron yn amhosib meddwl am newyddion Cymru hebddi - mae hi wedi bod yn ran allweddol o newyddion S4C dros y 10 mlynedd diwethaf a hefyd wedi gweithio gyda'r BBC yng Nghymru, Llundain a thramor.

Ond pa mor gyfforddus fydd Bethan wrth iddi hi gael ei holi gan Elin Fflur yn y rhifyn nesaf o **Sgwrs Dan y Lloer** ar S4C ar nos Lun, 16 Ionawr?

"Dwi'n nerfus, go iawn! Mae'n lot haws gofyn cwestiynau na'i hateb," meddai Bethan.

Mae Elin yn ymweld â Bethan yng ngardd ei thŷ yng Nghaerdydd ac mae Bethan yn sôn am ei phlentyndod, byw ym Mharis, y sialensiau mae hi wedi wynebu yn ystod ei gyrfa a hefyd sut mae hi'n gweld dyfodol newyddiaduriaeth yn sgil newyddion ffug.

"Mae bod yn newyddiadurwr ddim yn ennyn lot o barch nachdi?!," meddai Bethan. "Ond mae'n fraint a dwi'n angerddol am newyddiaduriaeth. A dwi wedi cael mynd i lefydd, dwi wedi cael holi pob math o bobl, dwi wedi gweithio efo timoedd mor arbennig.

"Y peth gorau ydy - pwy a ŵyr beth sy'n mynd i ddigwydd nesa', neu beth fydda i'n gwneud 'fory, neu beth fydd y stori fawr? Mae'n anhygoel a wir yn fraint - dwi wedi bod yn lwcus iawn."

Cafodd Bethan ei magu ym Mangor mewn teulu dwyieithog - ochr ei mam yn dod o Ben-y-Bont ac yn siarad Saesneg yn unig ac ochr ei thad yn dod o Ynys Môn ac yn siarad Cymraeg yn unig. Mae Bethan yn siarad pedair iaith ac mae'n credu'n gryf mai diolch i'w magwraeth ddwyieithog yw hyn.

Astudiodd Ffrangeg ac Eidaleg yn y brifysgol gan dreulio amser ym Mharis lle wnaeth hi gwrs newyddiaduriaeth Ewropeaidd. Wrth ei bodd gyda Paris, fe arhosodd yna a gweithio'n llawrydd am gyfnod cyn symud i Lundain i weithio fel Gohebydd Seneddol i'r BBC.

"Nes i sylweddoli doedd 'na ddim llawer o ferched yn y lobi pob bore yn Downing Street," meddai Bethan. "Mi oedd angen lot o hyder i godi llaw a gofyn cwestiwn i lefarydd Tony Blair ac mi oedd ambell un yn chwerthin os oedd merched yn gofyn cwestiwn. Mi oedd o'n fyd 'macho' iawn - oedd rhywun yn tyfu rhyw fath o groen.

"Ond dwi yn groendenau 'swn i'n dweud. Dwi dal i boeni os oes rhywun yn gwneud sylw cas, mae yn brifo."

Mae Bethan wedi teithio dros y byd fel rhan o'i swydd ac wedi gweld pethau erchyll mewn llefydd fel Bosnia a Thwrci. Mae hi'n sôn am ei phrofiad hi mewn gwersyll ffoaduriaid yn Swdan sydd wedi aros gyda hi dros y blynyddoedd.

"Da ni'n mynd mewn a hedfan allan - ond mae'r straeon yna yn aros," meddai Bethan.

Un o'r pethau sydd wir yn poeni Bethan yw'r cynnydd mewn newyddion ffug a sut mae newyddion a newyddiaduriaeth yn mynd i ddatblygu yn y dyfodol.

"Mae pawb yn newyddiadura nawr - pam fod angen rhaglen hanner awr? Pam fod angen newyddiaduriaeth go iawn? Mae pawb yn gallu tynnu llun...," meddai Bethan. "Sy'n dod â ni at newyddion ffug ynte? Oherwydd y newyddion ffug dwi'n meddwl bod newyddiaduriaeth yn fwy pwysig nag erioed 'swn i'n deud."

Mae bod yn newyddiadurwraig a chyflwynydd newyddion yn gallu bod yn yn un â digon o straen - felly beth mae Bethan yn wneud i ymlacio?

"Yn ddelfrydol, penwythnos gyda dim byd yn y dyddiadur a jysd yn dilyn y diwrnod; bod efo'r teulu a gweld lle da ni'n mynd a chael hwyl a chael chwerthin," meddai Bethan.

Dewch i ddarganfod mwy am fywyd cyffrous Bethan Rhys Roberts ar **Sgwrs Dan y Lloer** gydag Elin Fflur ar S4C, nos Lun, 16 Ionawr am 8.00.

**Sgwrs Dan y Lloer**
**Nos Lun 16 Ionawr 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C**

05.01.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Journalist Bethan's turn to answer some questions

Well-known and respected journalist Bethan Rhys Roberts has questioned and challenged all sorts of people during her long and successful career in the world of news.

It's almost impossible to think of Welsh news without her – she has been a key part of S4C news over the last 10 years and has also worked for the BBC in Wales, London and abroad.

But how comfortable will Bethan be when the tables are turned and she is interviewed by Elin Fflur in the next episode of **Sgwrs Dan y Lloer** (A Chat Under the Stars) on S4C on Monday, 16 January.

"I'm really nervous! It's a lot easier asking questions than answering them," said Bethan.

Elin visits Bethan in the garden of her home in Cardiff and Bethan chats about her childhood, living in Paris, the challenges she has faced during her career and the future of journalism in the face of fake news.

"Being a journalist doesn't earn you a lot of respect, does it?," said Bethan. "But it is an honour and I'm passionate about journalism. And I've been to places, interviewed all sorts of people and worked with some really amazing teams."

"The best thing is that goodness knows what will happen next, or what I will be doing tomorrow, or what the next big story will be? It's amazing and such an honour – I have been very lucky."

Bethan was brought up in Bangor in a bilingual family – her mother's side of the family from Bridgend who spoke only English and her father's side of the family from Anglesey who spoke only Welsh. Bethan speaks four languages and she believes strongly that this is due to her bilingual upbringing.

She studied French and Italian in university spending time in Paris where she did a course in European journalism. She loved Paris and stayed there for a while working as a freelance journalist until she moved to London to work as a Parliamentary Correspondent for the BBC.

"I noticed that there weren't many women in the Downing Street lobby every morning," said Bethan. "You needed a lot of confidence to raise your hand to ask Tony Blair's spokesperson a question and there was sometimes laughter if a woman asked a question. It was a very macho world and you had to grow a thick skin."

"But I would say that I am quite thin-skinned. I still worry if somebody makes a nasty remark, it does hurt."

Bethan has travelled all over the world as part of her job and has seen some terrible things in places such as Bosnia and Turkey. She talks about her experiences in a refugee camp in Sudan, which has stayed with her over the years.

"We go in there and fly out – but those stories stay with you," said Bethan.

One of the things that bothers Bethan is the increase in fake news and how news and journalism will develop into the future.

"Everyone's a journalist now – why do we need a half hour news programmes? Why do we need proper journalism? Anyone can take a photo...," said Bethan. "Which brings us to fake news doesn't it? It is because of fake news that I think that professional journalism is more important than ever."

Being a journalist and news presenter can be stressful – so what does Bethan do to relax?

"Ideally, a weekend with nothing in the diary and just seeing what happens; being with the family and seeing where the day takes us to have some fun and laughter," said Bethan.

Find out more about Bethan Rhys Roberts's exciting life in **Sgwrs Dan y Lloer** with Elin Fflur on S4C, Monday, 16 January at 8.00pm.

**Sgwrs Dan y Lloer**
**Monday 16 January 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Tinopolis production for S4C**